# Pleidleisiau a Thrafodion – Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr – Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mawrth, 17 Medi 2024

Amser y cyfarfod: 13.30

Gellir gwylio'r cyfarfod ar [Senedd TV](http://senedd.tv/cy/14105) yn:

[http://senedd.tv/cy/14105](http://senedd.tv/cy/14105)

# 226

## 1 Enwebiadau ar gyfer cadeiryddion pwyllgorau

Dechreuodd yr eitem am 13.30

Gwahoddodd y Llywydd enwebiadau ar gyfer cadeirydd y pwyllgor a ganlyn yn unol â Rheol Sefydlog 17.2F:

**Y Pwyllgor Deisebau (Llafur)**

Enwebwyd Rhianon Passmore gan Hannah Blythyn. Eiliodd Mick Antoniw yr enwebiad.

Enwebwyd Carolyn Thomas gan Buffy Williams. Eiliodd Joyce Watson yr enwebiad.

Gan fod dau enwebiad, cyfeiriodd y Llywydd yr enwebiadau ar gyfer pleidlais gyfrinachol yn unol â Rheol Sefydlog 17.21.

**Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad (Llafur)**

Enwebwyd Hannah Blythyn gan Julie Morgan. Eiliodd Lesley Griffiths yr enwebiad.

Gan nad oedd enwebiadau pellach nac unrhyw wrthwynebiadau, cyhoeddodd y Llywydd bod Hannah Blythyn wedi ei hethol yn Gadeirydd y Pwyllgor Safonau Ymddygiad.

**Canlyniadau**

Am 18.11, cyhoeddodd y Dirprwy Lywydd ganlyniad y bleidlais gyfrinachol ar gyfer ethol cadeirydd pwyllgor:

Y Pwyllgor Deisebau (Llafur):

| Rhianon Passmore | Carolyn Thomas | Ymatal | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 15 | 39 | 0 | 54 |

Cyhoeddodd y Llywydd bod Carolyn Thomas wedi ei hethol yn Gadeirydd y Pwyllgor Deisebau.

## 2 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

Dechreuodd yr eitem am 13.34

Gofynnwyd yr 8 cwestiwn cyntaf. Gwahoddodd y Llywydd arweinwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Prif Weinidog ar ôl cwestiwn 2.

## 3 Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol - Gohiriwyd

Gohiriwyd yr eitem hon.

## 4 Cynnig i atal Rheolau Sefydlog

Dechreuodd yr eitem am 14.22

**NNDM8655** Eluned Morgan (Canolbarth a Gorllewin Cymru)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheolau Sefydlog 33.6 a 33.8:

Yn atal Rheol Sefydlog 12.20(i), a'r rhan honno o Reol Sefydlog 11.16 sy'n ei gwneud yn ofynnol bod y cyhoeddiad wythnosol o dan Reol Sefydlog 11.11 yn darparu'r

amserlen ar gyfer busnes yn y Cyfarfod Llawn yr wythnos ganlynol, er mwyn caniatáu i NNDM8654 gael ei ystyried yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mawrth, 17 Medi 2024.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 5 Cynnig i gymeradwyo enwebu Cwnsler Cyffredinol

Dechreuodd yr eitem am 14.23

**NNDM8654** Eluned Morgan (Canolbarth a Gorllewin Cymru)

Cynnig bod y Senedd, yn unol ag Adran 49(3) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a Rheol Sefydlog 9.1, yn cytuno â'r argymhelliad gan Brif Weinidog Cymru i Ei Fawrhydi y Brenin benodi Julie James AS yn Gwnsler Cyffredinol.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 6 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

Dechreuodd yr eitem am 14.23

## 7 Datganiad gan y Gweinidog Gofal Cymdeithasol: Y Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Comisiynu Gofal a Chymorth yng Nghymru - Gohiriwyd tan 24 Medi

Gohiriwyd yr eitem hon tan 24 Medi.

## 8 Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a'r Gymraeg: Yr economi werdd - Tynnywd yn ôl

Tynnywd yr eitem hon yn ôl.

## 9 Datganiad gan y Prif Weinidog: Cysylltiadau rhynglywodraethol – Gohiriwyd tan 24 Medi

Gohiriwyd yr eitem hon tan 24 Medi.

## 10 Datganiad gan y Prif Weinidog: Blaenoriaethau'r llywodraeth

Dechreuodd yr eitem am 14.53

## 11 Datganiad gan y Prif Weinidog: Tata Steel

Dechreuodd yr eitem am 15.38

## 12 Datganiad gan y Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg: Cyflogau'r sector cyhoeddus

Dechreuodd yr eitem am 16.22

## 13 Datganiad gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig: Glanhau ein hafonydd, llynnoedd a moroedd

Dechreuodd yr eitem am 16.48

## 14 Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg: Prydau ysgol am ddim i holl blant ysgolion cynradd

Dechreuodd yr eitem am 17.39

## 15 Cyfnod pleidleisio

Nid oedd cyfnod pleidleisio.

Daeth y cyfarfod i ben am 18.20

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 13.30, Dydd Mercher, 18 Medi 2024